



DINAS A SIR CAERDYDD  
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

**GWYS Y CYNGOR**

DYDD IAU, 25 IONAWR 2024

**COUNCIL SUMMONS**

THURSDAY, 25 JANUARY 2024,

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber - County Hall, Atlantic Wharf, Cardiff, CF10 4UW on Dydd Iau, 25 Ionawr 2024 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Debbie Marles**  
**Swyddog Monitro Dros Dro**

Neuadd y Sir  
Caerdydd  
CF10 4UW

Dydd Gwener, 19 Ionawr  
2024

---

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill Gwrthrychedd a priodoldeb Anhunaoldeb a stiwardiaeth  
Uniondeb Dyletswydd i gynnal y gyfraith Atebolrwydd a bod yn agored

## **GWE-DARLLEDU**

**Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarllledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.**

**Gall aelodau'r wasg a'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn**

**Os ydych yn ymddangos gerbron y pwyllgor ystyrir eich bod wedi cydsynio i gael eich ffilmio. Trwy fynd i mewn i gorff y Siambr neu'r ystafell gyfarfod rydych hefyd yn cydsynio i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl o'r delweddau a'r recordiadau sain hynny ar gyfer gwe-ddarllledu, gwybodaeth gyhoeddus, sylw i'r wasg a/neu ddibenion hyfforddi.**

**Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarllledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Democrataidd ar 02920 872020 neu e-bost [Gwasanethau Democrataidd](#)**

<i>Eitem</i>		<i>Tua Amser</i>	<i>Max Amser</i>
<b>1</b>	<b>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b> <i>Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.</i>	4.30 pm	
<b>2</b>	<b>Datgan Buddiannau.</b> <i>Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)</i>		
<b>3</b>	<b>Cofnodion (Tudalennau 11 - 30)</b> <i>Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.</i>		
<b>4</b>	<b>Cwestiynau gan y Cyhoedd</b> <i>Clywed y cwestiynau a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cyhoedd ymlaen llaw.</i>	4.30 pm	5 mins
<b>5</b>	<b>Deisebau</b> <i>Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.</i>	4.35 pm	5 mins
<b>6</b>	<b>Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer</b> <i>Clywed cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.</i>	4.40 pm	5 mins
<b>7</b>	<b>Adroddiad Blynyddol 2022/23 y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 31 - 62)</b>	4.45 pm	10 mins
<b>8</b>	<b>Datganiadau'r Cabinet (Tudalennau 63 - 110)</b> <i>Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet</i>	4.55 pm	45 mins
<b>Egwyl</b>			
<b>9</b>	<b>Hysbysiad o Gynnig -1</b> <b>Cynigiwyd gan y Cynghorydd Lancaster</b> <b>Eiliwyd gan y Cynghorydd Melbourne</b>  <b>Mae'r Cyngor hwn yn nodi:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cyllid Llywodraeth Leol yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru.</li> <li>• Caerdydd sydd â'r ail gynnydd uchaf yn y setliad gan Lywodraeth Cymru o 4.1%, sy'n uwch na</li> </ul>	5.55 pm	30 mins

chyfartaledd Cymru.

- Mae'r cynnydd yn y setliad gan Lywodraeth Cymru yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ei dewis i dynnu rhywfaint o gymorth grant yn ôl.
- Bwlch ariannu a ragwelir o £30.5M ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

**Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymhellach:**

- Mae codiadau yn y Dreth Gyngor y
- n rhoi pwysau ariannol ar bob aelwyd, yn enwedig rhai incwm is.
- Mae Ardrethi Annomestig a gesglir yng Nghaerdydd yn cael eu cyfuno'n ganolog gan Lywodraeth Cymru a'u hailddosbarthu ledled Cymru. Mae Caerdydd yn derbyn llai yn ôl nag y mae'n ei gyfrannu.
- Ymhlith y cynigion yn yr ymgynghoriad ar y gyllideb mae lleihau gwasanaethau rheng flaen.

**Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:**

- Gwrando ar anghenion trigolion a chanolbwyntio ar ddiogelu a gwella gwasanaethau craidd, gyda'r angen i gadw'r Dreth Gyngor mor isel â phosibl a sicrhau gwerth am arian.
- Gwrthwynebu casgliadau biniau du bob tair wythnos, codi ffi ar wahân am gasglu gwastraff gardd, cael gwared â biniau sbwriel a lleihau gwaith glanhau strydoedd.
- Dileu ein bwlch ariannu a gwella gwasanaethau craidd drwy drafod gyda Llywodraeth Cymru i gadw 100% o'r Ardrethi Annomestig a gesglir gan Gyngor Caerdydd.

10	<p><b>Hysbysiad o Gynnig - 2</b></p> <p><b>Cynigiwyd gan y Cynghorydd Rodney Berman</b> <b>Eiliwyd gan y Cynghorydd Robert Hopkins</b></p> <p>Mae'r Cyngor hwn yn nodi:</p> <ol style="list-style-type: none"><li>1) Ym mlwyddyn ariannol 2023-2024, gosododd un ysgol arbennig, 35 ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd gyllidebau diffyg o'r cychwyn cyntaf.</li><li>2) Roedd llawer o ysgolion eraill yn gallu gosod cyllideb gytbwys dim ond trwy'r defnydd untro o'u cronfeydd wrth gefn.</li><li>3) Mae cyfran yr ysgolion sy'n gorfod gosod cyllideb ddiffyg yn ddigynsail.</li><li>4) O ystyried y pryderon a fynegwyd am y bwlch sylweddol yn y gyllideb i'r Cyngor cyfan yn 2024-</li></ol>	6.25 pm	30 mins
----	---	---------	---------

2025 a rhybuddion a roddwyd i fforwm cyllideb ysgolion y Cyngor, mae ofnau eang y bydd y sefyllfa dim ond yn gwaethygu gyda hyd yn oed mwy o ysgolion yn mynd i ddiffyg.

- 5) Mae rhwng 80% a 90% o gyllidebau ysgolion yn talu am gostau gweithwyr.
- 6) Mae ysgolion yn parhau i weithio'n galed i adfer ar ôl pandemig Covid-19 ac maent yn delio â phwysau a galwadau lluosog o ganlyniad. Mae'r galwadau hyn yn cynnwys yr angen i: wella presenoldeb a oedd, ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2023, 6% yn is na'r lefelau cyn y pandemig mewn ysgolion uwchradd a 5% mewn ysgolion cynradd; ymgysylltu â theuluoedd i gynyddu'r cymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed; gwella cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc.
- 7) Mae arweinwyr ac athrawon ysgolion yn ymwneud yn helaeth â gweithredu diwygio'r cwricwlwm a diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- 8) Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol yn gosod y Cyngor ar lwybr parhaus o gynyddu lefel ei fenthycy yn sylweddol ynghyd â chostau refeniw cysylltiedig, tra bod y Cabinet hefyd wedi ymrwymo'n ddiweddar i ariannu tua hanner ei gyfraniad cyfalaf £27.3 miliwn y cytunwyd arno at yr Arena Dan Do newydd arfaethedig drwy fenthycy ychwanegol, ac mae hyn yn cael effaith ganlyniadol sylweddol ar swm y cyllid refeniw sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau allweddol y Cyngor, gan gynnwys ar gyfer cyllidebau dirprwyedig ysgolion. Mae £1.5 miliwn o gyllid refeniw blynyddol eisoes wedi'i gynnwys yng nghyllideb refeniw sylfaenol y Cyngor i dalu costau benthyca sy'n gysylltiedig â'r prosiect Arena Dan Do ac mae'r Cabinet bellach wedi cytuno y dylai'r ddarpariaeth refeniw ar gyfer y benthyca hwn yn y gyllideb gynyddu i £2.9 miliwn y flwyddyn yn ystod y cam adeiladu a blynyddoedd cynnar y prosiect.

#### **Mae'r Cyngor hwn yn credu:**

- 1) Rhaid i bob ysgol fod â'r adnoddau angenrheidiol i gynnal addysg o ansawdd uchel.
- 2) Mae hyn yn gofyn am lefel o gyllid dirprwyedig a fydd yn osgoi colli swyddi ac yn diogelu gallu ysgolion i fodloni anghenion eu holl ddisgyblion.
- 1) Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun adfer Covid-19 tymor hwy sy'n cydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael, ac y mae'n parhau i'w chael,

	<p><i>ar bob ysgol.</i></p> <p>2) <i>Mae angen gweithredu os yw Caerdydd am ddiogelu ei statws fel dinas gyntaf y DU i dderbyn Statws Dinas sy'n Dda i Blant.</i></p> <p>3) <i>Yn syml, nid yw sefyllfa lle mae angen i ysgolion ddibynnu fwyfwy ar osod cyllidebau diffyg i weithredu yn gynaliadwy.</i></p> <p><i>Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i gyflwyno strategaeth ariannu fel rhan o ystyriaeth gyllidebol y Cyngor yn y dyfodol sy'n sicrhau y gellir ariannu ysgolion Caerdydd yn fwy digonol er mwyn lleihau'n sylweddol y gyfran o ysgolion yn y ddinas sydd angen gosod cyllidebau diffyg.</i></p>		
11	<p><b>Hysbysiad o Gynnig - 3</b></p> <p><b>Cynigiwyd gan y Cynghorydd Moultrie Eiliwyd gan y Cynghorydd Green</b></p> <p><i>Ar hyn o bryd mae Awdurdodau Lleol ledled y wlad fel Caerdydd yn paratoi eu cyllidebau blynyddol ar gyfer 2024/25.</i></p> <p><i>Ar ôl 13 mlynedd o gyntaf yn y sector cyhoeddus gan Lywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr, wedi'i waethygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan effaith barhaus Brexit, cynffon hir y Pandemig, chwyddiant rhemp a thwf disymud, mae cynghorau bellach yn wynebu lefelau digynsail o alw ond cyllid cwbl annigonol. Mae'r sefyllfa mor ddifrifol bod nifer o gynghorau yn Lloegr wedi cyhoeddi hysbysiadau Adran 114 i gwtogi gwariant o ddydd i ddydd yn ddifrifol.</i></p> <p><i>Mae Cyngor Caerdydd wedi wynebu bwlch cyllidebol cronus o dros £300 miliwn ers 2010, ac mae angen gweithredu darbodus a phendant i amddiffyn gwydnwch ariannol y Cyngor, tra'n parhau i gyflawni gweledigaeth Gryfach, Decach a Gwyrddach uchelgeisiol.</i></p> <p>Yn benodol, mae'r Cyngor yn nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>• Y gwelliannau parhaus yn ein hysgolion, sydd wedi arwain at ostyngiad dramatig yn nifer yr ysgolion yn cael eu monitro gan Estyn, bod ffigurau pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth ar lefelau bron yn hanesyddol o isel, bod canlyniadau arholiadau bellach yn uwch na chyfartaledd Cymru, a'r buddsoddiad parhaus dros 11 mlynedd yn ein hysgolion a'r ystâd Addysg.</i></li> </ul>	6.55 pm	30 mins

- Y cynnydd a wnaed i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig ehangu gofal gan berthnasau'n ofalus, a darparu'r strategaeth llety. Mae'r gwaith hwn yn gwella gallu'r Cyngor i gartrefu a gofalu am ein pobl ifanc fwyaf agored i niwed yn nes at gartref.
- Ailadeiladu capasiti ein Gwasanaeth Ieuencid, gyda thwrf yn y gyllideb dros nifer o flynyddoedd, a'r cynnig i ddiogelu'r gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, gan alluogi'r gwasanaeth i adeiladu ar lwyddiant mentrau fel Addewid Caerdydd a gwobr Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF i sicrhau y gall ein holl bobl ifanc, waeth beth fo'u cefndir, elwa o'r cyfleoedd y mae ein dinas yn eu cynnig.
- Y gwaith partneriaeth arloesol rhwng ein timau Gwasanaethau Cymdeithasol a'r GIG sy'n galluogi rhyddhau amserol o'r ysbyty i liniaru yn erbyn pwysau'r gaeaf. Mae'r bartneriaeth hon yn sicrhau bod ein pobl hŷn - yn enwedig y rhai â chyflyrau fel dementia - yn cael y gofal arbenigol sydd ei angen arnynt, ac sy'n cefnogi pobl i fyw'n annibynnol gartref, gyda gwell ansawdd bywyd, am gyfnod hirach.
- Llwyddiant ein rhaglen adeiladu Tai Cyngor benigamp, sy'n trawsnewid bywydau a chymunedau ym mhob rhan o Gaerdydd, ac sydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu - ar raddfa - datrysiadau tai arloesol a chyflym i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng digartrefedd diweddaraf sy'n effeithio ar bob dinas.
- Mae hyn i gyd a mwy yn cael ei gyflawni gyda'r Cyngor yn gosod lefelau Treth Gyngor sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru.

Serch hynny, er gwaethaf yr amddiffyniad cymharol a roddir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, mae'r rownd gyllideb ddiweddaraf yn golygu bod y Cyngor yn wynebu heriau sylweddol, a phenderfyniadau anodd, y bydd trigolion yn teimlo'n frwd am eu canlyniadau.

Felly, mae'r Cyngor hwn yn penderfynu

- Condemnio'r ymosodiad parhaus ar gyllid llywodraeth leol gan Lywodraeth Geidwadol y DU, a'r effaith niweidiol y mae hyn yn ei chael ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;
- Galw ar Ganghellor y Trysorlys i gyhoeddi adnoddau ychwanegol wedi'u targedu at awdurdodau lleol yn ei gyllideb ym mis Mawrth.
- Cymeradwyo'r cynnig i flaenoriaethu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y nodir yn adroddiad Diweddariad Cyllideb 2024/25 i'r Cabinet, ond yn nodi y bydd unrhyw doriadau pellach i gyllid awdurdodau lleol yn gadael llawer o feysydd anstatudol o wariant y Cyngor yn gofyn am "gymorth bywyd" yn y bôn nes bod newid cyfeiriad yn cael ei sicrhau ar lefel Llywodraeth y DU.
- Croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiogelu awdurdodau lleol Cymru cyn belled ag y bo modd, ac yn galw ar Brif Weinidog Cymru y dyfodol i barhau â'r dull

	<i>hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi gwasanaethau ataliol.</i>		
<b>12</b>	<b>Cwestiynau ar Lafar</b>  <i>Clywed cwestiynau ar lafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion Pwyllgorau a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.</i>	7.25 pm	80 mins
<b>13</b>	<b>Materion Brys</b>	8.45 pm	
<b>Materion Cyngor nas Gwrthwynebir</b>			
<b>14</b>	<b>Aelodaeth Pwyllgorau (Tudalennau 111 - 114)</b>  <i>Adroddiad y Swyddog Monitro Dros Dro</i>	8.45 pm	5 mins
<b>15</b>	<b>Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol i Gyrrff Llywodraethu Ysgolion (Tudalennau 115 - 118)</b>  <i>Adroddiad y Swyddog Monitro Dros Dro</i>	8.50 pm	5 mins
<b>16</b>	<b>Cwestiynau Ysgrifenedig</b>  <i>Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.</i>		